Nursing & Midwifery Council

# Ymgynghoriad ar y terfynau amser ar gyfer cwblhau addysg ar draws holl safonau addysg y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

Ionawr 2015

# Nod yr ymgynghoriad hwn

1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig diwygio ein safonau ar gyfer hyfforddi nyrsys a bydwragedd. Y newid arfaethedig yw dileu'r terfynau amser uchaf gorfodol presennol a ganiateir ar gyfer cwblhau rhaglenni cyn cofrestru ac ôl-gofrestru, er mwyn darparu ar gyfer ymyriadau annisgwyl.

2 Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r gofynion presennol a'n dull gweithredu ac yn ceisio barn rhanddeiliaid er mwyn llywio penderfyniad.

## Ein gofynion presennol ar gyfer addysg

3 Nodir y gofynion ar gyfer addysg nyrsys a bydwragedd yn ein dogfennau *Standards for pre-registration nursing education* (NMC, 2010),[1] a *Standards for pre-registration Midwifery education* (NMC, 2009).[2] Nodir y gofynion ar gyfer addysg rhagnodwyr yn *Standards of proficiency for nurse and midwife prescribers* (NMC, 2006).[3] Nodir y gofynion ar gyfer addysg nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn *Standards of proficiency for specialist community public health nurses* (NMC, 2004).[4]

4 Ein prif amcan yw diogelu'r cyhoedd a sicrhau bod y rhai sy'n ymuno â'n cofrestr wedi bodloni'r gofynion ar gyfer ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol fel nyrs neu fydwraig, ar ôl cwblhau rhaglen addysg lawn. Cynhwyswyd terfyn amser uchaf ar gyfer rhaglenni yn wreiddiol yn ein safonau cyn cofrestru er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau yr oedd myfyriwr wedi'u meithrin yn ystod ei gyfnod hyfforddi yn dal i fod yn gyfoes.

5 Nododd offerynnau statudol y sefydliadau a'n rhagflaenodd y gofyniad hwn ac, felly, roedd y sefyllfa hon yn rhwym yn y ddeddfwriaeth ar y pryd.[5]

6 Mae'r gofynion presennol o ran y terfyn amser uchaf ar gyfer cwblhau hyfforddiant yn dibynnu ar ba raglen sy'n cael ei dilyn. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaglenni sydd â therfynau amser uchaf ar gyfer eu cwblhau ar hyn o bryd ac yn nodi'r hyd disgwyliedig a'r cyfnodau hwyaf o amser a ganiateir ar hyn o bryd er mwyn darparu ar gyfer unrhyw ymyriadau annisgwyl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi

---

[1] http://standards.nmc-uk.org/PublishedDocuments/Standards%20for%20pre-registration%20nursing%20education%2016082010.pdf
[2] http://www.nmc-uk.org/Documents/NMC-Publications/nmcStandardsforPre_RegistrationMidwiferyEducation.pdf
[3] http://www.nmc-uk.org/Documents/NMC-Publications/NMC-Standards-proficiency-nurse-and-midwife-prescribers.pdf
[4] https://www.nmc-uk.org/Documents/NMC-Publications/NMC-Standards-of-proficiency-for-specialist-community-public-health-nurses.pdf
[5] 1969 Offeryn Statudol 1675, Nyrsys a Bydwragedd, Offeryn Cymeradwyo Rheolau Nyrsys 1969, Offeryn Statudol Rhif 873, Nyrsys, Bydwragedd acYmwelwyr Iechyd, Gorchymyn Cymeradwyo Rheolau Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd 1983.

nad yw pob un o'n safonau yn nodi'n benodol derfyn amser ar gyfer cwblhau rhaglenni ac, felly, nid ydym wedi cymhwyso'r gofyniad hwn yn gyson.

| **Cwrs** | **Hyd disgwyliedig** | **Terfyn amser uchaf ar hyd o bryd** |
|---|---|---|
| Safonau sy'n nodi terfyn amser uchaf ar gyfer cwblhau'r rhaglen | | |
| Safonau | Hyd arferol | Terfyn amser uchaf ar gyfer cwblhau |
| Nyrsio cyn cofrestru (amser llawn) | Tair blynedd | Pum mlynedd |
| Nyrsio cyn cofrestru (rhan-amser) | Heb ei nodi | Bydwreigiaeth cyn cofrestru (amser llawn) |
| Bydwreigiaeth cyn cofrestru (amser llawn) | Tair blynedd | Pum mlynedd |
| Bydwreigiaeth cyn cofrestru (amser llawn) | Heb ei nodi | Bydwreigiaeth cyn cofrestru (amser llawn) |
| Rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru sy'n para 18 mis (amser llawn) | 18 mis (78 wythnos) | Dwy flynedd a chwe mis (132 wythnos) |
| Rhaglen bydwreigiaeth ôl-gofrestru sy'n para 18 mis (rhan-amser) | Heb ei nodi | Tair blynedd a chwe mis |
| Rhagnodi gan nyrsys a bydwragedd | Blwyddyn | Dwy flynedd |
| Nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol | 78 wythnos | 156 wythnos |
| Safonau nad ydynt yn nodi terfyn amser uchaf ar gyfer cwblhau'r rhaglen | | |
| Safonau ar gyfer cymwysterau addysg ac ymarfer arbenigol | Heb ei nodi | Heb ei nodi |
| Safonau i gefnogi dysgu ac asesu mewn ymarfer | Heb ei nodi | Heb ei nodi |
| Safonau ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd | Heb ei nodi | Heb ei nodi |

7 Nid yw'r gofynion presennol yn darparu ar gyfer unrhyw hyblygrwydd y tu hwnt i'r terfynau amser uchaf a nodwyd uchod. Ar hyn o bryd byddai'n ofynnol i fyfyrwyr nad ydynt yn cwblhau rhaglenni o fewn y terfynau amser hyn ddechrau eu hyfforddiant eto o'r cychwyn, waeth beth fo'u hamgylchiadau personol. Ni allwn hepgor y terfynau hyn.

8 Mae'r dystiolaeth gyfredol yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr yn cwblhau eu rhaglen addysg o fewn y terfynau amser disgwyliedig. Dim ond nifer fach o fyfyrwyr sy'n ymestyn eu cyfnod astudio hyd at y terfyn amser uchaf a ganiateir. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod nifer o fyfyrwyr bob blwyddyn yn methu â chwblhau rhaglenni o fewn y terfynau amser uchaf.

9 O fewn y terfynau a bennwyd, mae sefydliadau addysg cymeradwy yn gyfrifol ar hyn o bryd am daith y myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys rheoli absenoldeb, salwch, materion disgyblu ac ymyriadau eraill.

## Pam ein bod yn ailystyried terfynau amser

**Deddfwriaeth cydraddoldeb a darparu ein rhaglenni cymeradwy**

10 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ofynnol i sefydliadau ddangos bod pob un o'u swyddogaethau yn cydymffurfio â gofynion gwrth-wahaniaethu ac yn sicrhau tegwch. Mae ein polisi yn adlewyrchu hyn, tra'n mynnu bod prosesau darparwyr addysg cymeradwy yn gadarn a bod y rhai sy'n ymuno â'n cofrestr yn addas i ymarfer.

11 Rydym yn adolygu ein dulliau rheoleiddio yn barhaus ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Rydym yn ceisio nodi ble y gallem wneud mwy y tu hwnt i'r gofyniad sylfaenol hwn drwy sicrhau ein bod yn ymddwyn yn deg. O ran y gofynion ar gyfer cwblhau rhaglenni, rydym yn pryderu nad oes fawr ddim hyblygrwydd ar gyfer myfyrwyr y mae angen iddynt gymryd mwy na'r cyfnod o amser a nodwyd i gwblhau rhaglen. Canlyniad hyn yw ei bod yn bosibl yr ystyrir bod myfyrwyr penodol o dan anfantais, os bydd digwyddiadau annisgwyl yn golygu bod angen cyfnodau astudio hwy nag a ganiateir ar hyn o bryd.

12 Gall enghreifftiau o ymyriadau o'r fath gynnwys:

12.1 cyfnodau olynol o feichiogrwydd;

12.2 salwch; neu

12.3 gorfod gofalu am aelod o'r teulu yn y tymor canolig neu'r hirdymor.

**Cysondeb o fewn y sector gofal iechyd**

13 Nid yw rheoleiddwyr eraill gweithwyr iechyd proffesiynol megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn nodi terfyn amser ar gyfer cwblhau eu rhaglenni cyn cofrestru. Y sefydliad addysg sy'n gyfrifol am reoli ymyriadau â rhaglenni a'r broses o'u cwblhau. At hynny, mae'r sefydliad yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cyrraedd y safonau addysgol gofynnol ar gyfer ymuno â'r gofrestr.

## Ein cynnig ar gyfer newid

**Dileu'r terfynau amser ar gyfer cwblhau rhaglenni o'n safonau**

14 Rydym yn cynnig y dylid datganoli'r cyfrifoldeb am reoli terfynau amser ar gyfer cwblhau rhaglenni i'r sefydliadau addysg cymeradwy a dileu'r terfynau amser uchaf ar gyfer cwblhau rhaglenni o'n safonau. Yn ein barn ni mae sefydliadau addysg cymeradwy mewn sefyllfa dda i farnu effaith ymyriadau ar safon hyfedredd unigolyn a'i barodrwydd proffesiynol i ymuno â'r gofrestr.

15 Mae eisoes yn ofynnol i sefydliadau addysg cymeradwy gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a nodir y disgwyliad hwn yn ein fframwaith safonau a sicrhau ansawdd[6].

**Sut y byddai hyn yn dal i ddiogelu'r cyhoedd**

16 Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar y lefel o hyfedredd sydd ei angen i gwblhau rhaglen ac ymuno â'n cofrestr. Er mwyn ymuno â'r gofrestr byddai angen i fyfyriwr gyflawni pob un o'r hyfedreddau o fewn y safonau addysg perthnasol a chwblhau rhaglen gofrestru lawn. Byddai'n ofynnol i ddarparwyr addysg ddangos bod ganddynt weithdrefnau cadarn ar waith, a hynny er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n cwblhau rhaglenni yn gwbl gymwys i ymuno â'r gofrestr, waeth faint o amser a gymerwyd i gwblhau eu hastudiaethau.

17 Fel rhan o broses barhaus o sicrhau ansawdd darpariaeth addysg, byddem yn monitro'r gofynion a bennir gan sefydliadau addysg cymeradwy. Byddem yn cofnodi gofynion rheoliadau academaidd o ran hyd rhaglenni ac yn monitro amserau cwblhau myfyrwyr.

## Casgliad

18 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd a'r ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a sicrhau tegwch.

19 Hoffem glywed barn rhanddeiliaid er mwyn ein helpu i ddeall goblygiadau ein cynigion.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1:** Cynigir y newidiadau canlynol i safonau'r NMC ar gyfer hyfforddiant ac addysg nyrsys a bydwragedd:

- Rydym yn cynnig y dylid dileu'r terfynau amser uchaf ar gyfer cwblhau rhaglenni o safonau'r NMC.
- Rydym hefyd yn cynnig y dylid datganoli'r cyfrifoldeb am reoli terfynau amser ar gyfer cwblhau rhaglenni i'r sefydliadau addysg cymeradwy.

[6] http://www.nmc-uk.org/Educators/Quality-assurance-of-education/Quality-assurance-framework/

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig a amlinellir uchod?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dw i ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2:** Yn ein barn ni, ni fyddai'r cynigion yn effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd am y rhesymau canlynol:

- Er mwyn ymuno â'r gofrestr byddai angen i fyfyriwr fodloni holl ofynion ein safonau cofrestru a chwblhau rhaglen gofrestru lawn.
- Byddai'n rhaid i'r sefydliadau addysg cymeradwy, fel sy'n digwydd nawr, gael sicrwydd, wrth ddyfarnu cymhwyster, fod myfyriwr wedi dangos y wybodaeth a'r sgiliau cyfoes angenrheidiol sy'n ofynnol yn y rhaglen honno. Byddai angen i'r myfyriwr ddangos ymarfer diogel ac effeithiol er mwyn bodloni ein meini prawf cofrestru.

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno na fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dw i ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 3:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y dull gweithredu arfaethedig yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cyfrifoldebau'r NMC i sicrhau diogelwch y cyhoedd tra'n sicrhau cydraddoldeb a thegwch (fel y nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb)?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dw i ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb.

## Camau nesaf a sut i ymateb

20 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng 15 Ionawr 2015 hyd nes 12pm 11 Mawrth 2015. Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, cwblhewch yr arolwg ymgynghori ar Survey Monkey www.surveymonkey.com/s/L9PYXN6. Fel arall, gallwch ddewis cwblhau ffurflen sydd ar gael ar ein tudalen we sy'n ymdrin ag ymgynghoriadau a'i dychwelyd i consultations@nmc-uk.org. Dylech gyflwyno eich ymatebion **erbyn canol dydd ar** consultations@nmc-uk.org.

21 Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn dadansoddi eich ymatebion ac yn eu defnyddio i lywio'r dull gweithredu y dylem ei fabwysiadu. Wedyn byddwn yn cyflwyno ein canfyddiadau i'n Cyngor gydag argymhelliad ynglŷn â beth y dylai ei wneud nesaf.

22 Pe bai'r Cyngor yn cytuno â'r cynigion a nodir uchod ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad, byddem yn dileu'r terfynau amser ar gyfer cwblhau ein rhaglenni addysg cymeradwy yn ein safonau ac yn hysbysu sefydliadau addysg cymeradwy am hyn mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, sef 2015–2016.